# PWYLLGOR CRAFFU DATBLYGU, 06.12.11

Yn bresennol: Y Cynghorydd Ioan Thomas (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** O.P. Huws, Anne Ll. Jones, Charles W. Jones, Elin Walker Jones, Penri Jones, Keith Marshall, John W. Meredith ac R.J. Wright; a'r Cynghorwyr John W. Jones a W. Roy Owen (Arweinyddion Portffolio)

**Swyddogion:** Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Sioned E.Williams (Pennaeth Economi a Chymuned), Ann Owen (Rheolwr Polisi Strategol Economi, Adfywio a Sgiliau),
Vera Jones (Uwch Reolwr Perfformiad ac Effeithlonrwydd), Dylan Griffiths (Rheolwr Strategaeth a Datblygu), Caroline Roberts (Rheolwr Buddsoddi), Anthony Williams (Rheolwr Cyfrif Perfformiad), Rhian Jones (Swyddog Cefnogi Busnes) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Pwyllgor)

**Aelod Cyfetholedig:** Dafydd Iwan, Cadeirydd Partneriaeth Economaidd Gwynedd

**Eraill a wahoddwyd i'r cyfarfod:** John Idris Jones, Pennaeth Datblygiad Economaidd Cymdeithasol Cymru, Magnox

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr T.G. Ellis, Glyn Roberts, John P. Roberts, Owain Williams

**3. GWYNEDD WERDD A'R SECTOR CARBON ISEL (YNNI NIWCLEAR AC YNNI ADNEWYDDOL)**

(a) Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Economi a Chymuned ar Adroddiad Diogelwch Niwclear yn dilyn Rhybudd o Gynnig a gyflwynwyd i'r Cyngor, a Rhaglen Waith Prosiect Gwynedd Werdd er mwyn manteisio a chreu cyfleon economaidd newydd o ddatblygiad Wylfa B ac unrhyw ddatblygiad ynni adnewyddol arall yn y Gogledd Orllewin.

(b) Codwyd y materion canlynol gan aelodau:-

(i) Pwysleisiodd y Cadeirydd nad oedd eisiau cael trafodaeth ar farn yr aelodau os ydynt o blaid neu'n erbyn Wylfa B ond dylid yn hytrach manteisio ar y budd economaidd i'r ardal.

(ii) Tynnodd aelod sylw at gyfeiriadau yn yr adroddiad at "legacy ponds" a "silos", a gofynnodd os y cymerwyd camau yn yr Wylfa a Thrawsfynydd i'r cyfeiriad hwn.

Mewn ymateb, hysbysodd Pennaeth Datblygiad Economaidd Cymdeithasol Cymru, Magnox mai'r "legacy ponds" a'r "silos" yw'r gwastraff a gedwir yn Sellafield ac mae'n wastraff sy'n dyddio'n ôl i'r 50/60au, sef dyddiau cynnar y rhaglen niwclear. Cyfeiriodd at sawl digwyddiad yn y cyfnod hwnnw parthed gwaredu gwastraff nas cofnodwyd. Nododd mai un o'r costau mawr sydd gan y diwydiant ar hyn o bryd yw clirio'r gwaith "legacy" yn Sellafield. Yng nghyd-destun Trawsfynydd, nid oes tanwydd niwclear ar y safle, ond yn hytrach lefel gwastraff canolig ac isel, ac fe ymgymerwyd â gwaith i edrych ar yr astudiaethau diogelwch ac fe adnabuodd y gwaith hwnnw ychydig o fân bethau y gellid gwneud mwy ohonynt. Nododd bod yr

astudiaeth diogelwch yn ddilys ac yn dderbyniol. Parthed Wylfa, mae yna danwydd niwclear yn yr adweithyddion ac mae'r gwaith a ymgymerwyd gan Gwmni Magnox ers y drychineb yn Siapan yn dangos bod y tanwydd hwnnw'n cael ei gadw mewn ffordd diogel. Ailedrychwyd ar yr astudiaethau diogelwch, effaith daeargrynfeydd a llifogydd a.y. Gofynai'r arolygaeth niwclear bod astudiaeth yn cael ei gynnal bob 10 mlynedd o'r safleoedd ym Mhrydain a chwblhwyd yr astudiaeth hwnnw ddiwethaf yn yr Wylfa yn 2004 a'r adeg hynny gwariwyd dros £60m i ddod â'r safle i safonau modern cyfoes fel rhan o'r astudiaeth diogelwch.

(iii) Cyfeiriodd aelod at sylw yn yr adroddiad parthed cyhoeddi adroddiad cynnydd y flwyddyn nesaf o ran gweithredu'r gwersi yn y Deyrnas Unedig a gofynnodd beth oedd yr amserlen i gyflawni'r argymhellion yng nghyd-destun dyfodiad Wylfa B.

Mewn ymateb, hysbysodd y Pennaeth yng nghyd-destun y safleoedd presennol mae'n ofynnol i bob cwmni sy'n rhedeg safle ar hyn o bryd fel yr Wylfa a Thrawsfynydd, gyflwyno adroddiad cynhwysfawr erbyn Awst 2012 fel ymateb i'r argymhellion. Parthed yr Wylfa newydd a'r broses ddiogelwch, nododd bod yna ddau fath o ddyluniad gerbron yr arolygaeth niwclear ac y gwneir astudiaeth fanwl ohonynt. Yn dilyn y drychineb yn Siapan, mae'r arolygaeth yn awyddus i weld sut mae'r dyluniadau hyn yn datblygu. Pan fydd cynllun manwl ar gael, rhoddir caniatâd interim o ddiogelwch. Nododd bod yna ddau gam yn y broses o asesu diogelwch ac mae'r gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Defnyddir gwersi trychineb Siapan wrth adeiladu'r achos diogelwch ar gyfer safle'r Wylfa. Rhagwelir y byddai'r gwaith hwn wedi ei gwblhau erbyn 2014.

(iv) Mewn ymateb i sylw gan aelod, cydnabu'r Pennaeth bod y diwydiant niwclear wedi bod yn gudd yn y gorffennol ac yn wael am gyfathrebu â'r cyhoedd. Nododd y pwysigrwydd o fod yn agored ac yn dryloyw.

(v) Nododd aelod mai agwedd Partneriaeth Economaidd Gwynedd yw os y datblygir Wylfa B y dylid sicrhau budd economaidd a chyflogaeth i Wynedd a Gogledd Cymru.

(vi) Gofynnodd aelod a fyddai'n bosibl cael manylion am y math o swyddi a fyddai ar gael o safbwynt adeiladu a chynnal a chadw.

Mewn ymateb, hysbysodd y Pennaeth Economi a Chymuned bod y gwaith cydweithio â Chyngor Sir Ynys Môn yn cynnwys ffrydio gwaith penodol ac un o'r ffrydiau gwaith yw datblygu sgiliau a pharatoi'r gweithlu ar gyfer y cyfleon. Nododd bod yna waith ar hyn o bryd yn sgopio'r math o sgiliau sydd ei angen a bydd y sgiliau'n ddibynnol ar y math o dechnoleg a ddefnyddir.

Nododd Pennaeth Datblygiad Economaidd Cymdeithasol Cymru, Magnox y rhagwelir dechrau ar y gwaith adeiladu oddeutu 2015 gyda pharhad am bump neu chwe blynedd. O ystyried sgiliau'r ieuenctid a.y. mae'n bwysig bod yn rhagweithiol yn y cyfnod hwn er sicrhau y rhoddir cyfle i'r ieuenctid sydd ar hyn o bryd yn ddiwaith gael mynd i brentisiaethau lleol. Parthed cwmniau lleol, nid ydynt ar hyn o bryd yn fodlon cyflogi prentisiaid oherwydd pryder i ariannu'r prentisiaethau hynny. Bwriedir sefydlu cwmni prentisiaid gyda Chynghorau Gwynedd a Môn, Horizon a Choleg Menai gyda'r nod o gefnogi ieuenctid i brentisiaethau'n lleol. Ar ôl cwblhau eu prentisiaethau yna byddai cyfle iddynt gael gwaith gyda Wylfa neu'r cwmniau lleol. 'Roedd yn bwysig bod cynllun o'r math hwn yn cael ei ariannu'n ddigonol.

(vii) Nododd bod oddeutu 650 yn gweithio ar safle Trawsfynydd ar hyn o bryd a

gofynnodd os y byddai'r gweithwyr hynny'n debygol o gael eu trosglwyddo i'r Wylfa pan fyddai'r gwaith datgomisiynu wedi dirwyn i ben.

Mewn ymateb, hysbysodd y Pennaeth y rhagwelir y bydd yr Wylfa presennol yn parhau i gynhyrchu trydan am oddeutu dwy neu dair blynedd eto ac yna'n mynd i fewn i gyfnod o waredu tanwydd o'r safle tan 2016/2017 ac yn dilyn hynny ymgymerir â gwaith datgomisiynu yn safle'r Wylfa presennol. Dechreuir gweithio ar yr Wylfa newydd yn 2015 a disgwylir y bydd y gwaith ar safle Trawsfynydd yn dirwyn i ben yn 2016. Felly gellir trosglwyddo'r gweithwyr o Trawsfynydd i weithio yn yr Wylfa newydd.

Cyfeiriodd y Pennaeth Economi a Chymuned at gynllun penodol a gyd-ariennir sef Siapio'r Dyfodol gyda Menter Môn yn arwain ar y cynllun. Nod y cynllun yw gweithio gyda gweithlu Trawsfynydd a'r Wylfa er mwyn gweld sut y gellir eu paratoi ar gyfer y cyfleon datgomisiynu yn yr Wylfa.

(viii) Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol ei bod yn allweddol bwysig i baratoi plant a phobl ifanc ar gyfer y cyfleon sy'n dod yn sgîl y datblygiad hwn. Mae'r maes hwn yn her sylweddol i'r ardal. Mae angen trawsnewid y profiadau mae plant a phobl ifanc yn eu cael o fewn y systemau addysg ac o fewn yr ysgolion ar draws y sir er mwyn sicrhau bod y sgiliau a'r profiadau ganddynt mewn pynciau perthnasol. O ran paratoi'r ardal ar gyfer y datblygiad hwn, nododd bod yna risgiau i'r ardal oherwydd os yw cyflogwr mor fawr a'r Wylfa yn dod i'r ardal ac yn recriwtio pobl ifanc yn benodol, mae'n ofynnol cael dealltwriaeth o oblygiadau hynny ar weddill cwmniau ac economi Môn, Gwynedd a Chonwy oherwydd efallai y gallai nifer o gwmniau bychain yn yr ardal golli llawer o reolwyr. Nododd hefyd y gallai ardal Gogledd Orllewin Cymru elwa o'r datblygiad hwn ond efallai y byddai'n effeithio ar nifer o gwmniau bychain o ran recriwtio pobl ifanc a rhai â chymwysterau i'r sector fusnes.

Mewn perthynas â sgiliau mewn ysgolion, hysbysodd Pennaeth Datblygiad Economaidd Cymru, Magnox yr edrychir ar Ogledd Orllewin Cymru drwy weithio gyda Cynnal i geisio adnabod yr hyn sydd angen ei wneud gyda'r ysgolion i baratoi cwriciwlwm ar gyfer diwydiant carbon isel. Rhoddir ystyriaeth i brofiadau ysgolion cynradd ac edrychir hefyd ar ysgolion uwchradd ar gyfer y dyfodol. Ar gyfer ysgolion Môn a Gogledd Gwynedd, sefydlwyd cwrs peirianneg ar gyfer pobl ifanc 14-16 oed sy'n cyfateb i gwrs TGau. Mewn perthynas â risgiau i'r ardal, cydnabu bod rhai cwmniau yn colli gweithwyr a thrwy Prentis Menai ceisir hybu'r cwmni hwnnw i gyflogi prentisiaid nawr er gallu cryfhau'r cwmniau bychain lleol i'r dyfodol. Mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru ceisir cynorthwyo'r cwmniau bychain i weithio gyda'r diwydiant niwclear.

(ix) Nododd yr Arweinydd Portffolio Economi a Chymuned bod y broses o gymhwyso'n grefftwr yn un eithaf hir. 'Roedd o'r farn bod sefydlu'r cwmni prentisiaid yn bwysig i Wynedd gan y byddai'n fodd o roddi cyfle i bobl ifanc.

(x) Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed rhoddi'r pwyslais ar sgiliau a'r defnydd o'r iaith Gymraeg, hysbysodd y Pennaeth fel rhan o unrhyw ddatblygiad mae'n ofynnol i ddatblygwyr wneud asesiad o effaith unrhyw ddatblygiad ar yr iaith Gymraeg.

Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol ei bod yn bwysig bod yr hyfforddiant perthnasol ar gael drwy'r Gymraeg a bod yna ddilyniant rhwng yr addysg sydd ar gael yn yr ysgolion uwchradd ac mewn addysg bellach.

(xI) Mewn perthynas â'r Rhaglen Gwynedd Werdd ac yn benodol y cymal sy'n cyfeirio at adnabod potensial ynni adnewyddol graddfa fwy i economi Gwynedd, gan sgopio a datblygu cyfleoedd addas ar draws y sir, gofynnodd aelod os y gwneir adolygiadau o safleoedd posibl yn nhermau ynni dŵr a.y.

Mewn ymateb, hysbysodd y Pennaeth Economi a Chymuned y comisiynir adroddiad ar hyn o bryd i edrych ar draws y sir er ceisio adnabod y meysydd lle y gellir creu'r cyfleon a'r budd mwyaf i Wynedd o'r sector ynni. Edrychir ar y safleoedd presennol ac hefyd lle mae enghreifftiau o gyfleon newydd. Nododd bod Hydro yn gyfle gwych i Wynedd. Ymgymerwyd ag archwiliad cychwynnol o'r holl weithgareddau cynhyrchu ynni presennol ac fe adnabuwyd 23 o safleoedd gweithredol presennol hydro yn y sir. Cyfeiriodd hefyd at gynlluniau ychwanegol e.e. y cyfle i gael cynllun hydro cymunedol yn Abergwyngregyn a fyddai'n dod â budd sylweddol ariannol i'r gymuned yn flynyddol. Nododd mai pwrpas yr adroddiad yw sgopio ac adnabod y prif gyfleon fel y gellir paratoi a chynllunio gyda'r rhai sy'n gyfrifol am yr is-adeiledd.

(xii) Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed cynhyrchu ynni o'r Afon Menai, hysbysodd y Pennaeth y gellir rhoddi ystyriaeth pellach i hyn.

**PENDERFYNWYD**
**a) Croesawu'r camau a gymerwyd i ymchwilio i ddiogelwch y diwydiant niwclear yn sgîl effaith daeargryn Fukushima ar y diwydiant niwclear yn Siapan.**
**b) Croesawu'n arbennig y bwriad i weithredu cyfres o gamau i wneud y diwydiant ym Mhrydain yn fwy diogel.**
**c) Cyflwyno adolygiadau cyson ar y cynnydd.**
**ch) Derbyn bod trefniadau addas mewn lle i gydweithio gyda Chyngor Sir Ynys Môn i fanteisio ar y cyfleon economaidd i economi Gogledd Orllewin Cymru o ddatblygiad Wylfa B a mentrau Ynys Ynni.**
**d) Derbyn bod Cynllun Prosiect Gwynedd Werdd yn cyflawni'r amcanion.**